Have Your Say Bulletin

Happy New Year, welcome to the latest bulletin!!

£5.5m for 'personalised' mental health services

Over the Christmas period (Wednesday, 28 December 2011) the Health Minister Lesley Griffiths announced that there will be new funding worth 5.5m to improve mental health services

£3.5m will go towards support at a local level, meaning enhanced mental health services being delivered in primary care settings such as GP surgeries.

A further £2m will support an expanded independent mental health advocacy service. The service helps and support patients to understand and exercise their legal rights.

The funding supports the implementation of the Mental Health (Wales) Measure which became law in 2010, which ensures mental health services are better designed around patients' needs.

Every patient within secondary mental health services will also receive an individual care and treatment plan, developed in collaboration with them and their careers.

Patients discharged from secondary mental health services will also have a direct route back to services if they feel their mental health is subsequently deteriorating.

Health Minister Lesley Griffiths said:

> "With one in four people suffering from mental health issues at some point in their lifetime, this funding will mean better support for people closer to their homes.
>
> "This additional money will mean mental health services will be available within primary care settings and be delivered alongside general health services provided by GPs.
>
> "It also means that mental health services will be more personalised, focusing on the recovery model of care and treatment, appropriately tailored for specific groups.
>
> "It will also mean that individuals will get timely access to assessment when they have been discharged from secondary mental health services but feel they would again benefit from further treatment."

Commencement dates for the Mental Health (Wales) Measure 2010

Commencement dates of the Mental Health (Wales) Measure are:

- Part 1 of the Measure, concerning local primary mental health support services, will commence in October 2012;

unllais registered charity number 1039446 | Company limited by guarentee 2897553

- Parts 2 and 3 of the Measure, concerning assessment, care and treatment planning and care coordination within secondary mental health services, will commence in June 2012;
- Part 4 of the Measure, concerning the expansion of the independent mental health advocacy scheme under the Mental Health Act 1983, will commence in two phases. The first phase (concerning patients subject to sections 4 or 5 of the 1983 Act) will commence in January 2012. The second phase (concerning informal inpatients) will commence in April 2012.

Carers Strategies (Wales) Measure 2010

The Carers Strategies (Wales) Measure 2010 will come into force on 1 January 2012. The Measure can be downloaded from the link below
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/5/contents
or email Sarah.Austin@wales.gsi.gov.uk or telephone 029 20825852 for a hard copy.

Service User and Carer involvement in the recruitment of staff

Below are some of the recruitment panels that service users and carers have taken part in since July.

North Wales posts:
- 5 Consultants based in community mental health teams across North Wales
- Continuing Healthcare Assessors/Reviewers

Conwy & Denbighshire
- Sessional worker at Ty Mor, Rhyl
- Several Administration posts
- Social Worker, Tim Dyffryn Clwyd
- A Band 5 and Band 7 Nurse for Dinas Ward, Ablett Unit.
- Nurses at Bryn Hesketh, Older People's Services, Colwyn Bay

If you would like to take part in the recruitment of new staff, contact Hilary at the above address. The peer support group for everyone who takes part in recruitment panels will now take place twice a year (10.5.12 and 9.11.12) at Wellington Road Community Centre, Rhyl.

North Wales User Network

In November, the Network and some carers met with Dr Alberto to discuss the Acute Care Guidelines. Dr Alberto explained the' Collaborative Approach' to the Network, which is the new way the Health Board will be delivering the Acute Care Service across North Wales.

'Swinging 60's night'

North Denbighshire Survivors Network have organised a 'swinging 60's night' at Rhyl Golf Club,on Friday 10 February - for tickets contact Ros on 01745 334667

unllais registered charity number 1039446 | Company limited by guarentee 2897553

Denbighshire Mental Health and Interest Planning Group

There is a vacancy for a carer to join the local Denbighshire planning group. The Group meets monthly on the last Friday of the month, if you would like more details, contact Hilary

Training staff

Band 5 and 6 nurses
A number of service users and carers have been busy putting together training sessions for the Band 5 and 6 nurses across North Wales, this will take place in January and February. Over the next few months, Unllais will be contacting everyone who has showed an interest in training staff to come along and 'try out delivering the training sessions', the aim being to have a core group of trainers to train staff North Wales wide.

November's Recovery Conference
November's Conference in LLandudno was a resounding success. Our thanks go to the service users and carers who took part in the Patient Stories Workshop. There is nothing more powerful than staff hearing first hand people's personal experiences of their mental health issues and accessing mental health services. Training to support service users and carers 'to tell their story' is ongoing, for more information contact Hilary.

Dates for 2012

C&D Adult Mental Health Carers' Forum
Guest speaker - Constable Dave Roberts, Diversity Unit will be giving a short talk on Hate Crime Awareness
Thursday, 19 January 2012 at 12.30pm (a light lunch will be provided) - 3.00pm
at Eirianfa Community Centre, Denbigh

.....

Re-scheduled Service User and Carer Get Together
Guest speaker - Lesley Cotter, Head of Occupational Therapy,
Betsi Cadwaladr University Health Board
Wednesday, 8 February 2012 at 10.30am - 12.30pm
in Colwyn Bay Library, Woodland Avenue, Colwyn Bay

.....

Service User and Carer Get together
Guest Speaker - ' How effective are antipsychotics?' - Prof. Peter Lepping, Consultant Psychiatrist/Visiting Professor (Glyndŵr University)/Associate Medical Director Betsi Cadwaladr University Health Board.
Thursday, 15 March 2012 at 2pm - 4pm
in Colwyn Bay Library, Woodland Avenue, Colwyn Bay

Please contact Hilary, if you would like to attend as places are limited.

unllais registered charity number 1039446 | Company limited by guarentee 2897553

Have Your Say Bulletin

unllais registered charity number 1039446 | Company limited by guarentee 2897553

Dweud Eich Dweud Bwletin

Croeso i'r bwletin diweddaraf!!

£5.5m ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl 'personol'

Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd Lesley Griffiths gyllid newydd gwerth £5.5m heddiw (dydd Mercher 28 Rhagfyr) er mwyn gwella gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

Dydd Iau 29 Rhagfyr 2011

Caiff £3.5m ei ddefnyddio ar gyfer cefnogaeth ar lefel leol, sy'n golygu darparu gwell gwasanaethau iechyd meddwl mewn lleoliadau gofal sylfaenol fel meddygfeydd.

Bydd y £2m arall yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol estynedig. Mae'r gwasanaeth yn helpu ac yn cefnogi cleifion i ddeall ac arfer eu hawliau cyfreithiol.

Mae'r cyllid yn helpu i weithredu Mesur Iechyd Meddwl (Cymru), a ddaeth i rym yn 2010, sy'n sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu dylunio'n well ar sail anghenion cleifion.

Bydd pob claf o fewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd hefyd yn derbyn cynllun gofal a thriniaeth unigol, a ddatblygwyd ar y cyd â hwy a'u gofalwyr.

Bydd gan gleifion sy'n cael eu rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd lwybr uniongyrchol yn ôl at wasanaethau hefyd, os byddant yn teimlo bod eu hiechyd meddwl yn dirywio ar ôl eu rhyddhau.

Dywedodd y Gweinidog Iechyd Lesley Griffiths:

> "Mae un o bob pedwar ohonom yn dioddef afiechyd meddwl ar ryw adeg yn ystod eu bywydau, a bydd y cyllid hwn yn caniatáu gwell cefnogaeth i bobl yn agosach at eu cartrefi.
>
> "Bydd yr arian ychwanegol hwn yn golygu y bydd gwasanaethau iechyd meddwl ar gael o fewn lleoliadau gofal sylfaenol ac yn cael eu darparu ochr yn ochr â'r gwasanaethau iechyd cyffredinol y mae meddygon teulu yn eu cynnig.
>
> "Bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy personol, gan ganolbwyntio ar y model adferiad ar gyfer gofal a thriniaeth, ac yn cael eu teilwra'n briodol ar gyfer grwpiau penodol.
>
> "Bydd unigolion hefyd yn gallu cael eu hasesu yn brydlon lle maent wedi'u rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd, ond yn teimlo y byddai'n llesol iddynt gael triniaeth bellach wedi hynny."

Dyddiadau cychwyn Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Dyddiadau cychwyn Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) :

- Bydd Rhan 1 y Mesur, sy'n ymwneud â gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol yn cychwyn ym mis Hydref 2012;
- Bydd Rhannau 2 a 3 y Mesur, sy'n ymwneud ag asesu, cynllunio gofal a thriniaeth a chydlynu gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, yn cychwyn ym mis Mehefin 2012;
- Bydd Rhan 4 y Mesur, sy'n ymwneud ag ehangu'r cynllun adfocatiaeth iechyd meddwl annibynnol dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, yn cychwyn ar ddau gyfnod. Bydd y cyfnod cyntaf (sy'n ymwneud â chleifion sy'n destun adrannau 4 a 5 Deddf 1983) yn cychwyn ym mis Ionawr 2012. Bydd yr ail gyfnod (sy'n ymwneud â chleifion anffurfiol) yn cychwyn ym mis Ebrill 2012.

unllais registered charity number 1039446 | Company limited by guarentee 2897553

Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010

Fe ddaw Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010 i rym ar Ionawr 1, 2012. Gellir lawrlwytho'r Mesur oddi ar y ddolen isod http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/5/contents neu e-bostiwch Sarah.Austin@wales.gsi.gov.uk neu ffoniwch 029 20825852 i gael copi caled.

Ymglymiad Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr â recriwtio staff

Isod mae rhai o'r panelau recriwtio y mae defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr wedi cymryd rhan ynddyn nhw ers mis Gorffennaf.

Swyddi Gogledd Cymru:

- 5 Ymgynghorydd sydd wedi eu lleoli mewn timau iechyd meddwl cymunedol ledled Gogledd Cymru
- Aseswyr/Adolygwyr Gofal Iechyd Parhaus

Conwy a Sir Ddinbych

- Gweithiwr sesiynol yn Nhŷ Môr, y Rhyl
- Sawl swydd Weinyddol
- Gweithiwr Cymdeithasol, Tîm Dyffryn Clwyd
- Nyrs Band 5 a Band 7 ar gyfer Ward Dinas, Uned Ablett.
- Nyrsys ym Mryn Hesketh, Gwasanaethau Pobl Hŷn, Bae Colwyn

Os hoffech chi gymryd rhan mewn recriwtio staff newydd, cysylltwch â Hilary yn y cyfeiriad uchod. Bydd y grŵp cymorth i gyfoedion sydd ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan yn y panelau recriwtio'n digwydd ddwywaith y flwyddyn rŵan (10.5.12 and 9.11.12) yng Nghanolfan Gymunedol Ffordd Wellington, Y Rhyl.

Rhwydwaith Defnyddwyr Gogledd Cymru

Ym mis Tachwedd, fe gyfarfu'r Rhwydwaith a rhai gofalwyr â Dr Alberto i drafod y Canllawiau Gofal Aciwt. Esboniodd Dr Alberto'r 'Agwedd Gydweithredol' tuag at y Rhwydwaith, sef y ffordd newydd y bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflenwi'r Gwasanaeth Gofal Aciwt drwy Ogledd Cymru.

Noson o Swing y 60au'

Rhwydwaith Goroeswyr Gogledd Sir Ddinbych wedi trefnu 'Noson o Swing y 60au' yng Nghlwb Golff y Rhyl, ar ddydd Gwener, Chwefror 10 - cysylltwch â Ros ar 01745 334667 i gael tocynnau

Grŵp Cynllunio Iechyd Meddwl a Diddordeb Sir Ddinbych

Mae yna le gwag i ofalwr ymuno â grŵp cynllunio lleol Sir Ddinbych. Bydd y Grŵp yn cyfarfod yn fisol ar ddydd Gwener olaf y mis. Os hoffech fwy o fanylion, cysylltwch â Hilary.

Hyfforddi staff

Nyrsys Band 5 a 6

Mae nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr wedi bod yn brysur yn trefnu sesiynau hyfforddi ar gyfer nyrsys Band 5 a 6 drwy Ogledd Cymru. Bydd hyn yn digwydd ym mis Ionawr a mis Chwefror. Yn y misoedd nesaf, bydd Unllais yn cysylltu â phawb sydd wedi dangos diddordeb mewn hyfforddi staff i ddod draw a 'rhoi cynnig ar ddarparu'r sesiynau hyfforddi' a'r nod ydi creu grŵp craidd o hyfforddwyr i hyfforddi staff ledled Gogledd Cymru.

unllais registered charity number 1039446 | Company limited by guarentee 2897553

Cynhadledd Adferiad mis Tachwedd

Roedd Cynhadledd mis Tachwedd yn Llandudno'n llwyddiant ysgubol. Hoffem ddiolch i'r defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr a fu'n cyfranogi yn y Gweithdy Straeon Cleifion. Does yna ddim sy'n fwy pwerus na staff yn clywed yn uniongyrchol am brofiadau personol pobl o'u problemau iechyd meddwl a chyrchu'r gwasanaethau iechyd meddwl. Mae hyfforddiant i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr 'i ddweud eu stori eu hunain' yn barhaus. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Hilary.

Dyddiadau ar gyfer 2012

Fforwm Gofalwyr Iechyd Meddwl Oedolion Conwy a Sir Ddinbych

Siaradwr gwadd – Bydd y Cwnstabl Dave Roberts, Uned Amrywiaeth yn rhoi sgwrs fer ar Ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb

Dydd Iau, Ionawr 19, 2012 am 12.30pm (fe ddarperir cinio ysgafn) - 3.00pm
yng Nghanolfan Gymunedol Eirianfa, Dinbych

.....

Cyfarfod Anffurfiol sydd wedi'i ail-drefnu ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr

Siaradwr gwadd - Lesley Cotter, Pennaeth Therapi Galwedigaethol,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dydd Mercher, Chwefror 8, 2012 am 10.30am - 12.30pm
yn Llyfrgell Bae Colwyn, Woodland Avenue, Bae Colwyn

.....

Cyfarfod anffurfiol i Ddefnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr

Siaradwr gwadd - 'Pa mor effeithiol ydi 'antipsychotics'? - Yr Athro Peter Lepping, Seiciatrydd Ymgynghorol/Athro Gwadd (Prifysgol Glyndŵr) /Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Dydd Iau, Mawrth 15, 2012 am 2pm - 4pm
yn Llyfrgell Bae Colwyn, Woodland Avenue, Bae Colwyn

Cysylltwch â Hilary os hoffech chi ddod yno gan fod lleoedd yn gyfyngedig.

unllais registered charity number 1039446 | Company limited by guarentee 2897553